

CYFARFOD ARBENNIG y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Mawrth 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn union ar ôl i gyfarfod arferol y Cyngor ddod i ben.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Miss S. L. Roberts (Dirprwy Faer)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

141. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), Mrs J. Butterfield YH MBE (ar wyliau), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. Mellor (yn mynychu cyfarfod arall), B. F. Moylan (yn sâl), P. Prendergast (ar wyliau), W. N. Tasker (ar wyliau), D. Simmons (ymrwymiad arall), y Parch. S. Walker (ymrwymiad gwaith) a Miss H. J. Windus, Dirprwy Clerc y Dref, (yn sâl).

142. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

143. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y RHYL

Mewn perthynas â chofnod rhif 90 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2015, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r Rhaglen) a gofynnodd i'r Cyngor gymeradwyo'n ffurfiol y penderfyniad i roi teitl 'Ryddfreiniwr Anrhydeddus' i un o drigolion y Rhyl a enwyd.

Dywedodd Clerc y Dref bod yr unigolyn wedi cadarnhau y byddai wrth ei fodd yn derbyn yr anrhydedd, a bod y ddeddfwriaeth yn gofyn bod y cyfarfod arbennig hwn yn cael ei alw gydag o leiaf dwy rhan o dair o'r Aelodau a oedd yn bresennol yn pleidleisio o blaid iddo dderbyn y teitl. Unwaith y byddai wedi ei gymeradwyo, byddai'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor gan y Maer newydd ac yng nghyfarfod y Cyngor ar 15fed Mehefin 2016 byddai'r cyflwyniad yn cael ei wneud.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau gadw enw'r unigolyn yn gyfrinachol tan ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penderfyniad.

144. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: